

29 Medi 2015

## Newyddion

---

### Belaod Coed yn cyrraedd Cymru

Mae'r cynllun cyntaf ar raddfa Brydeinig i achub un o'n anifeiliaid cigysol prinnaf wedi cychwyn. Mae belaod coed brodorol o'r Alban yn dechrau ar fywyd newydd yng Nghymru, ac mae rhagor ohonyn nhw ar y ffordd!

Y Vincent Wildlife Trust (VWT) sy'n arwain y gwaith. Mae gan yr elusen hon 30 mlynedd o brofiad mewn cynnal ymchwil ar felaod coed ac mae'r Ymddiriedolaeth heddiw'n falch iawn i gyhoeddi bod y gwaith o drawsleoli belaod i Gymru wedi cychwyn.

Mae 'Prosiect Achub Bele'r Coed' ([www.pine-marten-recovery-project.org.uk](http://www.pine-marten-recovery-project.org.uk)) wedi golygu llawer o waith cynllunio gofalus gan elusen sy'n enwog am ei gwaith gyda'r creadur swil hwn. Ag eithrio'r gath wyllt dyma'r anifail gwyllt cigysol prinnaf ym Mhrydain.

Mae'r boblogaeth o felaod coed yn yr Alban yn iach ac yn cynyddu, ond mae'r rhywogaeth mewn peryg o ddiplannu'n llwyr o Loegr a Chymru. Er mwyn ceisio adfer y boblogaeth o felaod coed yng Nghymru mae'r VWT yn bwriadu trawsleoli 20 bele o'r Alban i goedwigoedd yng nghanolbarth Cymru eleni, ac yna 20 bele arall yr hydref nesaf. Dylai hyn arwain at greu poblogaeth sy'n gallu cynnal ei hun a lledaenu hefyd, dros amser, i fforestydd eraill yng Nghymru a thros y ffin i Loegr.

Yn ôl Natalie Buttriss, Prif Weithredwraig y VWT' "Mae fy nhîm o swyddogion gwarchod mamaliaid wedi bod yn gweithio'n ddiwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn digwydd eleni. Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein ffordd o weithio'n drwyadl ac yn briodol. Rydym wedi cynnwys llawer o bobl wahanol yn y broses wrth i ni gynllunio'r prosiect, yn cynnwys nifer o arbenigwyr ar gadwraeth mamaliaid. Mae'r ymateb cadarnhaol a'r gefnogaeth a gawsom yn ystod ein trafodaethau, ac yn wir ar bob cam yn natblygiad y prosiect, wedi ein hannog a'n calonogi."

Yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd beload coed wedi diflannu o bobman bron yn ne Prydain. Llwyddodd y rhai oedd ar ôl ddal eu gafael yn ucheldiroedd pellennig gogledd-orllewin yr Alban ac mewn ambell fan yn ucheldiroedd gogledd Lloegr a Chymru. Yr erlid cynyddol ar anifeiliaid ysglyfaethus, yn enwedig wrth i saethu gêm ddod yn fwy poblogaidd, oedd yn bennaf gyfrifol am dranc y beload coed - a hynny'n dod ar ben diflaniad cymaint o goedwigoedd aeddfed, sef hoff gynefin beload coed. Heddiw mae beload coed ar gynnydd ar hyd a lled yr Alban. Ond islaw ffin yr Alban mae'r sefyllfa'n llawer mwy difrifol ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bendant o adferiad naturiol yn nifer beload coed.

Mae'r VWT wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid ac arbenigwyr er mwyn gwireddu'r prosiect i drawsleoli beload. Mae Scottish Natural Heritage wedi rhoi trwydded i'r VWT ddal beload, mae Comisiwn Coedwigaeth y Alban wedi caniatáu mynediad i'r tir ac mae'r anifeiliaid yn cael eu gollwng dan drwydded ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r llociau gollwng yng Nghymru wedi cael eu cynllunio a'u hadeiladu gan staff Sŵ Caer, sy'n un o brif bartneriaid y prosiect. Mae Coed Cadw a'r People's Trust for Endangered Species hefyd yn bartneriaid allweddol o ran ariannu'r prosiect ac mae nifer o fudiadau ac unigolion eraill yn cefnogi'r prosiect mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys Wildlife Vets International sy'n cynnig cyngor a nwyddau milfeddygol allweddol. Rydym yn dal i chwilio am arianwyr a phartneriaid eraill ar gyfer prosiect a fydd yn debyg o gostio tua £1.2 miliwn dros 5 mlynedd.

Yn ystod degawdau olaf yr 20<sup>fed</sup> ganrif bu'r VWT yn flaenllaw yn yr ymdrech i achub y dyfrgi a llygoden bengron y dŵr rhag difodiant. Wrth i elusen y VWT ddathlu ei phenblwydd yn 40 oed eleni mae'n braf gweld ein bod ni eto'n rhoi cymorth angenrheidiol i un arall o famaliaid brodorol Prydain.

**DIWEDD**

---

## Nodiadau i Olygyddion

Os hoffech ragor o fanylion cysylltwch â rheolwraig cyfathrebu VWT Hilary Macmillan ar 01531 636441 (07779472320) neu'r Prif Weithredwr Natalie Buttriss ar 01531 636441 (07964 353871) neu ebostiwch [hilarymacmillan@vwt.org.uk](mailto:hilarymacmillan@vwt.org.uk)

## Y Vincent Wildlife Trust

Mae'r Vincent Wildlife Trust yn elusen Prydeinig sy'n gweithio'n annibynnol ac mewn ffyrdd newydd i gynnal gwaith ymchwil a chadwraeth er lles mamaliaid. Dros y 40 mlynedd ddiwethaf mae'r VWT wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o warchod nifer o'n mamaliaid prinnaf, yn cynnwys bele'r coed, y dyfrgi, y pathew, llygoden bengron y dŵr, y ffwlbart a'r ystlumod. Heddiw mae'r VWT yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion y mamaliaid hynny sydd angen cymorth ym Mhrydain ac yn yr Iwerddon ac ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio'n hymdrechion ar fele'r coed, y ffwlbart, y carlwm a'r ystlumod. Mae'r VWT hefyd yn rheoli tua 40 gwarchodfa yn Lloegr, Cymru ac yn yr Iwerddon ac mae'r mwyafrif o'r rhain yn glwydfannau ystlumod pedol. Gallwch ddarllen mwy ar: [www.vwt.org.uk](http://www.vwt.org.uk)

## Partneriaid y Prosiect

### Sŵ Caer

Mae Sŵ Caer ([www.chesterzoo.org](http://www.chesterzoo.org)) wedi ei gofrestru fel elusen addysg a chadwraeth. Mae'n cefnogi prosiectau ar hyd a lled y byd. Mae'n croesawu dros 1.4 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn a hwn yw'r sŵ mwyaf yn y DU. Mae'n gartref i 12,500 a mwy o anifeiliaid a thros 450 o rywogaethau gwahanol. Mae nifer o'r rhain mewn perygl o ddiflannu yn y gwyllt.

Am y pedwerydd tro'n olynol mae'r Association of Leading Visitor Attractions (AVA) wedi enwi Sŵ Caer fel yr atyniad sydd wedi denu'r mwyaf o ymwelwyr o blith yr atyniadau hynny sy'n codi tâl mynediad.

Yn Awst 2014 mi wnaeth defnyddwyr y wefan TripAdvisor enwi Sŵ Caer fel sŵ gorau DU, yr ail orau yn Ewrop a'r chweched sŵ gorau yn y byd.

Drwy ei ymgyrch gwarchod bywyd gwyllt, 'Act for Wildlife', mae'r sŵ yn helpu diogelu rhywogaethau sydd mewn perygl mawr o diflannu am byth mewn gwahanol rannau o'r byd. Dysgwch mwy ar [www.actforwildlife.org.uk](http://www.actforwildlife.org.uk)

Os am ragor o wybodaeth ynglŷn â sŵ Caer cysylltwch â Will Condliffe, Rheolwr Cyfryngau Cynorthwyol: Ffôn: 07557 744092 | Ebst: [w.condliffe@chesterzoo.org](mailto:w.condliffe@chesterzoo.org)

### Coed Cadw

Coed Cadw yw'r elusen bennaf yn y DU sy'n ymgyrchu dros goetiroedd a choed brodorol. Mae gan yr elusen dros 400,000 o gefnogwyr. Tri phrif amcan sydd gan Goed Cadw, sef: i) plannu coed a choetiroedd brodorol gyda'r nod o greu tirwedd wydn er lles pobl a bywyd gwyllt; ii)

gwarchod coetiroedd hynafol sy'n gynefin prin, unigryw ac amhosib ei ail-greu; iii) adfer coetiroedd hynafol sydd wedi cael eu difrodi, gan ddod â bywyd newydd i ddarnau gwerthfawr o'n byd naturiol. Sefydlwyd Coed Cadw yn 1972 a bellach mae'n gofalu am 1,000 a mwy o goedwigoedd. Mae'r rhain yn cwmpasu tua 20,000 hectar (50,000 erw). Gall unrhyw un grwydro coetiroedd Coed Cadw yn rhad ac am ddim.

Cofrestrwyd Coed Cadw fel elusen yn Lloegr (Rhif 924344), Mae'n gwmni di-elw cyfyngedig drwy warant. Rhif cofrestru (yn Lloegr) 1982873. Swyddfa cofrestredig: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire, NG31 6LL.

Os hoffech ragor o wybodaeth am Goed Cadw cysylltwch ag Alison Kirkman: Ffôn: 0343 770 5874 / 07767 213 792 | Ebst: [AlisonKirkman@woodlandtrust.org.uk](mailto:AlisonKirkman@woodlandtrust.org.uk)

### **People's Trust for Endangered Species**

Elusen cadwraeth yw PTES. Cafodd ei sefydlu yn 1977 er mwyn diogelu dyfodol y rhywogaethau hynny sydd mewn peryg o ddiflannu ar hyd a lled y byd. Mae'n gweithio i warchod rhai o'n rhywogaethau a'n cynefinoedd gwyllt mwyaf bregus. Mae'n cynnig cymorth ymarferol ar gyfer gwaith cadwraeth drwy ariannu ymchwil a swyddi preswyl, cynnig grantiau ar gyfer y gwaith o warchod mamaliaid brodorol a rhai byd-eang, cefnogi rhaglenni addysg, hyfforddiant ac estyn, ac mae hefyd yn annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwaith cadwraeth drwy gynlluniau arolwg bywyd gwyllt, cyhoeddiadau, ymgyrchoedd a digwyddiadau. Ymhlith y rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n flaenoriaeth i PTES mae'r pathew, y draenog, llygoden bengron y dŵr, chwilen hardd y berllan, perllannau traddodiadol a choetiroedd brodorol.

Ewch i [www.ptes.org](http://www.ptes.org) os am ragor o wybodaeth ynglŷn â PETS, neu dilynwch ni ar Facebook a Twitter.

Os am ragor o fanylion ynglŷn â PTES cysylltwch â Nida Al-Fulaij. Ffôn: 020 7062 8620 | Ebst: [Nida.Al-Fulaij@ptes.org](mailto:Nida.Al-Fulaij@ptes.org)

### **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Swyddfa'r wasg: 029 2046 4227 / [pressoffice@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:pressoffice@naturalresourceswales.gov.uk) (24 awr)

Corff sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Pwrpas y corff yw sicrhau bod adnoddau Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffyrdd cynaliadwy - nawr ac yn y dyfodol.

Os am ragor o wybodaeth ewch i [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

### **Scottish Natural Heritage**

Scottish Natural Heritage yw'r corff sy'n cynghori'r llywodraeth ynglŷn â phob agwedd ar fyd natur a thirwedd yn yr Alban. Ein pwrpas yw helpu pawb i ddeall, gwerthfawrogi a mwynhau bywyd gwylt yr Alban - nawr ac yn y dyfodol hefyd. Os hoffech ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan [www.snh.gov.uk](http://www.snh.gov.uk) . Cadwch mewn cyswllt hefyd drwy ddilyn ein trydar ar [www.twitter.com/SNH\\_Tweets](https://www.twitter.com/SNH_Tweets)

Os am ragor o wybodaeth ynglŷn â SNH cysylltwch gyda Vicki Mowat, swyddog y wasg a materion cyhoeddus, ar 0131 316 2659 (Mawrth- Gwener) neu cysylltwch â phrif swyddfa'r wasg yn Inverness ar 01463 725 022 (Llun). Ebst: [Vicki.mowat@snh.gov.uk](mailto:Vicki.mowat@snh.gov.uk)

### **Wildlife Vets International**

Mae Wildlife Vets International (WVI) yn elusen sydd wedi ei chofrestru ym Mhrydain. Sefydlwyd hi yn 2004 gan grŵp o filfeddygon profiadol a oedd wedi bod yn gweithio gyda bywyd gwylt a chreaduriaid sŵ. Y nod oedd rhoi cymorth a sgiliau milfeddygol arbenigol i weithwyr cadwraeth. Mae WVI yn cynnig arbenigedd milfeddygol ar hyd a lled y byd i brosiectau sy'n ceisio gwarchod rhywogaethau mewn perygl ac mae'n gweithio'n ymarferol gyda nhw yn y maes i achub anifeiliaid sydd dan fygythiad. Cryfder neilltuol sydd gan yr elusen yw'r addysg a'r hyfforddiant y mae'n rhoi i staff lleol sy'n gweithio o fewn tiriogaethau naturiol yr anifeiliaid. Mae hyn yn datblygu gallu pobl leol i gyfrannu at y prosiectau yn y tymor hir ac felly'n sicrhau bod WVI yn helpu creu datrysiadau cynaliadwy er mwyn gwarchod rhywogaethau mewn perygl. Trwy weithio gyda llywodraethau, elusennau a sŵau mae WVI mewn sefyllfa unigryw i gynnig cymorth lle mae ei angen fwyaf. Ar hyn o bryd mae WVI yn cynnig arbenigedd milfeddygol i Brosiect Achub Bele'r Coed.

Os am ragor o wybodaeth ynglŷn â WVI, cysylltwch â: Penny Cusdin: Ffôn 07497 813 516 | Ebst: [p.cusdin@wildlifevetsinternational.org](mailto:p.cusdin@wildlifevetsinternational.org)

## Prosiect Achub Bele'r Coed

Mae'r prosiect yn benllanw 30 mlynedd o waith ymchwil ac arolwg gan y Vincent Wildlife Trust. Mae'r ymchwil hwn wedi rhoi darlun clir o'r hyn sydd wedi achosi'r dirywiad yn niferoedd beload coed, a hefyd yr hyn sydd angen os ydym yn dymuno i'r rhywogaeth oroesi. Oherwydd nad oes gennym unrhyw dystiolaeth bod y creaduriaid yn magu yng Nghymru, na chwaith bod eu poblogaeth yn cynyddu'n naturiol, yr unig ffordd o adfer poblogaeth hyfyw o felaod coed yw atgyfnerthu'r boblogaeth wan sy'n dal i oroesi mewn rhai rhannau o'r DU.

Mae ail-sefydlu un o'n mamaliaid prinnaf a mwyaf carismataidd ynddo'i hun yn amcan gwerth chweil. Ond gallai'r gwaith ddod â nifer o fanteision eraill yn ei sgîl. Gallai helpu dod ag incwm ychwanegol i ardaloedd gwledig drwy hybu ecodwristiaeth, fel y gwelwyd eisoes yn yr Alban. Hefyd mae ymchwil yn yr Iwerddon wedi dangos bod niferoedd gwiwerod llwyd wedi lleihau yn yr ardaloedd hynny lle mae beload coed ar gynnydd ac mae hyn wrth gwrs yn fuddiol i'r wiwer goch. Er nad oes ymchwil tebyg wedi ei gynnal eto yn y DU fe allai cynnydd yn niferoedd beload coed fod yn fanteisiol i'n gwiwerod coch prin hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y prosiect:

[www.pine-marten-recovery-project.org.uk](http://www.pine-marten-recovery-project.org.uk)

## Ffeithiau defnyddiol

### Bele'r Coed

Diflannodd bele'r coed (*Martes martes*) o'r rhan fwyaf o Brydain erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Llwyddodd poblogaethau bychain ddal gafael yng Nghymru ac ar hyd y gororau, ac mewn rhai ardaloedd yng ngogledd Lloegr. Ond dim ond mewn rhai rhannau o Ucheldiroedd yr Alban y goroesodd poblogaethau niferus o felaod coed, ac hynny oherwydd bod llai o erledigaeth yn y rhan honno o Brydain.

Mae astudiaethau diweddar wedi dangos bod bele'r coed yn adennill tir yn yr Alban. Ond stori arall yw hi islaw ffin yr Alban. Yn yr ardaloedd hyn ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod poblogaethau'r beload yn adfer yn naturiol. Erbyn hyn ystyrir mai bele'r coed yw'r ail anifail

cigysol prinnaf ym Mhrydain, ar ôl y gath wyllt, ac ystyrir bod angen cymryd camau brys i achub y rhywogaeth.

### **Ffeithiau am felaod coed**

- Mae bele'r coed yn famal brodorol ym Mhrydain ac yn yr Iwerddon. Mae'n aelod maint-canolig o deulu'r carlymolion (sef teulu'r wenci) ac mae'n perthyn i'r ffwlbart, y dyfrgi, y mochyn daear, y carlwm a'r wenci. Ar ôl tyfu'n llawn mae beload coed yn debyg, o ran maint, i gathod dof bach, ac mae'r gwrywod yn fwy na'r benywod o rhyw drydydd rhan.
- Corff ystwyth, tenau sydd gan fele'r coed. Mae'r gynffon hir yn drwchus a blewog yn ystod y gaeaf. Mae'r blew brown cyfoethog yn cyferbynu gyda'r clwtyn neu'r 'bib' lliw hufen ar y gwddf a'r frest, ac mae blew gwelw i'w gweld y tu mewn i'r clustiau amlwg, crwn (mae maint y bib yn amrywio a gall fod bron yn absennol ar rai beload.)
- Mae'n debyg bod bele'r coed wedi cyrraedd Prydain yn fuan ar ôl diwedd yr Oes Iâ ddiwethaf, sef tua 9,500 mlynedd yn ôl. Gan mai coedwigoedd yw ei hoff gynefin byddai wedi bod llawer mwy niferus pan oedd Prydain a'r Iwerddon wedi eu gorchuddio gan fwy o goed. Mae 'na awgrym mai beload coed oedd yr ail anifail cigysol mwyaf niferus ym Mhrydain tua 6,500 mlynedd yn ôl!
- Mae beload coed yn byw ar eu pennau eu hunain am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae pob oedolyn yn byw o fewn tiriogaeth sy'n amrywio o 20 i 3000+ hectar, yn dibynnu ar ansawdd y cynefin.